# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Gorffennaf 2023
Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPlant@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

(09.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.15)

### 2.1 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:
Gohebiaeth ynghylch Addysg Ddewisol yn y Cartref - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 1 (Saesneg yn unig)

### 2.2 Gweithredu diwygiadau addysg

(Tudalennau 3 - 4)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 2

### 2.3 Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Prif Weithredwr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

(Tudalennau 5 - 6)

Dogfennau atodol:
Ymateb Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i adroddiad y Pwyllgor - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.4 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 7 - 12)

Dogfennau atodol:
Papur ar y cyd oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 4

**2.5 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 13 - 18)

Dogfennau atodol:
Gwybodaeth ychwanegol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 5 (Saesneg yn unig)

**2.6 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**

(Tudalennau 19 - 24)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 6

**2.7 Blaenraglen Waith**

(Tudalennau 25 - 27)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 7

**2.8 Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

(Tudalennau 28 - 30)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 8

**2.9 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 31 - 32)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 9

**2.10 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 33 - 34)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gomisiynydd y Gymraeg - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 10

**2.11 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 35 - 36)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 11

**2.12 Gwybodaeth gan Randdeiliaid**

(Tudalennau 37 - 40)

Dogfennau atodol:
Gwybodaeth gan Dîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 12 (Saesneg yn unig)

**2.13 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 41 - 43)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 13

**2.14 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 44 - 45)

Dogfennau atodol:
Llythyr at y Llywydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deisebau - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 14

**2.15 Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 46 - 47)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Gymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) - CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 15 (Saesneg yn unig)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 4, eitem 7 ac eitem 9 ar agenda'r cyfarfod hwn.

(09.15)

## 4 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(09.15 - 10.15) (Tudalennau 48 - 72)

Dogfennau atodol:

Papur esboniadol - CYPE(6)-20-23 - Papur preifat 1

Papur cwmpasu - CYPE(6)-20-23 - Papur preifat 2

## 5 Trafod y dull gweithredu o ran sesiwn cynllunio strategol y Pwyllgor

(10.15 - 10.30) (Tudalennau 73 - 75)

Dogfennau atodol:

Papur Cynllunio Strategol - CYPE(6)-20-23 - Papur preifat 3

## 6 Gweithredu diwygiadau addysg - ystyried canlyniad y broses gysylltu yn yr haf 2023

(10.30 - 10.40) (Tudalennau 76 - 83)

Dogfennau atodol:

Llythyr drafft - CYPE(6)-20-23 - Papur preifat 4

## 7 Diweddariad ar weithgareddau'r Pwyllgor

(10.40 - 10.50)

## Egwyl

(10.50 - 11.00)

## 8 Sesiwn graffu ar y cyd gyda Gweinidogion ar addysg a sgiliau ôl-16

(11.00 - 12.25) (Tudalennau 84 - 95)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi

Jo Salway, Cyfarwyddwr Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, Llywodraeth Cymru
James Owen, Cyfarwyddwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, Llywodraeth Cymru
Abigail Philips, Pennaeth Arloesi, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil

## 9 Sesiwn graffu ar y cyd gyda Gweinidogion - trafod y dystiolaeth

(12.25 - 12.30)

**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 1**

**Mandatory meeting with LA representative**

I am not currently home educating my daughter, but her needs are such that we may need to consider it in the near future. Her anxiety regarding appointments with professionals is extremely high and my experiences talking to other parents and professionals (particularly in the worlds of mental health and trauma informed practise) demonstrate we are not alone in this situation. Apart from the other issues raised in my first email, it is a very great concern to me that, if we were to opt for EHE at some point in the near future, the requirement to meet with a member of of the LA would be a massive source of stress and anxiety for her, even with me present, but to be told she is not allowed to have me present would be even worse, very likely leading to further traumatisation. Advice from trauma specialists is to prioritise felt safety and building relationships with key people. This would not be possible in the scenario which is being proposed by the government. Furthermore, advice from chronic fatigue specialists is that stress is to be avoided where possible, as it can cause flare ups or relapses. (I can provide you with relevant sources on these issues if that would be of help.) Our GP and other adoption specialists also agree that to have multiple different professionals dipping in and out is detrimental to her well-being and her recovery process. There is no provision being made within the current proposals to address this type of problem. **If the proposals go ahead I could be forced to make a choice between safeguarding my daughter's mental health and well-being and breaking the law.**

Can you see that this is a very frightening situation to be in?

**Mental health crisis and attendance policies are exacerbating the situation**

I am certain I am not alone in this situation. Levels of anxiety in children are clearly rising and I hear all the time how attendance figures have dropped drastically since the pandemic. Parents are being forced to consider educational alternatives for their children when they would not otherwise have chosen. Even just in my circle of close friends and family, I know of at least 7 children from 5 families who are experiencing anxiety around school - ranging from KS1-4. None of these are families who would previously have considered EHE, but some are coming to the conclusion they may not have much choice because of the detrimental effects they observe school attendance is having on their children. If I am representative of the general population, we are looking at a problem on a massive scale. Increasing the pressure on parents to comply with a system which is not working for their child is not a compassionate or even a pragmatic way forward. Attendance "targets" and rewards/punishments only make the problem worse because they do not address the underlying causes. They put pressure on schools, which is then transferred to parents and children. Increasing pressure is unhealthy for everyone. As a teacher I can speak from personal experience at both ends.

**Please understand, I am not referring to parents who are negligent or children who are truanting.** These are parents who are deeply concerned for their children's health and well-being and feel stuck between a rock and a hard place. For people like this, EHE sometimes becomes their only option. We may soon be one of those families.

Can you see how this wider context exacerbates the problems posed by the legislation?

**A plea for help**

Please, please, please will you, as chair of the Children, Young People and Education Committee, listen to our pleas for a wiser and less heavy handed approach. To make visits with a "stranger" mandatory for a child who is emotionally, physically or mentally fragile is not wise or kind and may not be for those who are more resilient either. To prevent them from having their primary carer present at such a meeting could cause huge distress, even more so because there is the potential for the results of such a meeting being that their parents/carers' provision could be judged as inadequate - and all on the basis of what they say. This is a burden that should not be placed on children. I urge you to rethink this.

These are very real concerns and I don't think it is an exaggeration to say that they constitute safeguarding concerns. I know each case will be different, but that is exactly the reason that a blanket mandatory requirement is inappropriate and potential harmful to many children like my daughter.

Can you see the kind of risks I am describing associated with what the government is proposing?

Are you happy to expose families, such as ours, to those risks?

**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 2**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Mehefin 2023

Annwyl Jayne,

Croesawais y cyfle i ddarparu tystiolaeth yn sesiwn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ddiwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar 10 Mai.

Yn dilyn ein sesiwn flaenorol ym mis Gorffennaf 2022, ymrwymais i roi ffigyrau ddwywaith y flwyddyn ichi ar nifer y disgyblion ag AAA neu ADY, naill ai yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar lefel Disgyblion (CYBLD) neu gofnodion presenoldeb wythnosol. Ar 25 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau'r cyfrifiad ysgolion (prif ystadegau) fel yr oeddent ym mis Ionawr 2023. Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys cipolwg ar nifer y plant ag AAA/ADY a'r newidiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Fel yr oeddwn wedi'i ragweld yn ein sesiwn ar 10 Mai, mae prif ddata CYBLD yn dangos tuedd barhaus o ostyngiad yn nifer y dysgwyr ag AAA/ADY. Rwyf am eich sicrhau chi mai bwriad ein polisi o hyd yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc ag ADY gael Cynllun Datblygu Unigol (CDU) (yn achos person ifanc, os ydynt yn cydsynio i gael CDU). Fodd bynnag, am ychydig o resymau, mae ein disgwyliadau o faint o ddysgwyr fydd ag ADY wedi newid.

Yn gyntaf, fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cyflwyno rôl statudol y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn gyfle i ysgolion adolygu a diweddaru eu cofrestrau AAA. Arweiniodd hyn at ddileu enwau dysgwyr a ddylai fod wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr o'r blaen, neu na ddylai fod wedi bod ar y gofrestr yn y lle cyntaf.

Yn ail, lluniwyd deddfwriaeth ADY 10 mlynedd yn ôl, ac ni allem fod wedi rhagweld yn llawn y cyfleoedd a fyddai'n codi o weithredu'r diwygiadau deuol i'r cwricwlwm ac ADY ar yr un pryd, a'r ffocws cyfunol ar wella tegwch mewn addysg. Mae'r adborth a gafwyd gan uwch arweinwyr drwy ymchwil cynnar ar y cwricwlwm wedi cyfeirio at y ffaith bod y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi mwy o gyfle i hyrwyddo a chanolbwyntio ar gynwysoldeb i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn galonogol i'w weld, ac rydym yn disgwyl i fwy o ddysgwyr a oedd gynt ar lefel gweithredu AAA mewn ysgolion gael eu cefnogi fel rhan o addysgu gwahaniaethol ac ymarfer addysg gynhwysol.

Roeddwn i eisiau pwysleisio, fel y nodais yn fy llythyr diwethaf, fod gan unrhyw ddisgybl a dynnwyd oddi ar y gofrestr AAA yn ddiweddar yr hawl i siarad â'u hysgol i ofyn am CDU os

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

na ellir diwallu eu hanghenion heb ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae ysgolion ac awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY pan ddaw'r mater i'w sylw.

Wrth inni symud i'r drydedd flwyddyn o weithredu'r diwygiadau hyn, byddwn yn parhau i ofyn am adborth gan y sector, teuluoedd a rhanddeiliaid. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gydag Estyn i geisio sicrwydd pellach bod anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu diwallu. Fel rhan o'r ymdrechion hyn, bydd Estyn yn cyhoeddi adroddiad o'i hadolygiad thematig parhaus ym mis Medi 2023.

Rydym hefyd wedi comisiynu gwerthusiad 4 blynedd o'r system ADY. Bydd y gwerthusiad hwn yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth allweddol i'n galluogi i fonitro a nodi effeithiau y system ADY ddiwygiedig ar ddysgwyr ag ADY/AAA, ac effaith diwygio'r cwricwlwm arni. Mae pwyslais ar system addysg gynhwysol wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf ADY. Drwy gysoni ein cynlluniau a'n gweithgareddau gwerthuso ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm ac ADY byddwn yn gwella ymhellach ein gallu i fonitro effaith y diwygiadau cyfochrog hyn ar ddysgwyr ag ADY/AAA. Bydd y gwerthusiadau yn sicrhau y gallwn nodi beth sy'n gweithio'n dda a rhannu hynny gyda'r system ehangach i gefnogi dysgwyr. Bydd hefyd yn ffynhonnell dystiolaeth ychwanegol ar gyfer pan nad yw pethau'n mynd rhagddynt fel y byddem yn ei ddisgwyl, fel y gallwn weithio gyda phartneriaid yn y system i ganolbwyntio ar ddarparu cymorth yn y lleoedd cywir.

Rwy'n edrych ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am dystiolaeth, ymchwil a mewnwelediadau wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 3

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

13 Mehefin 2023

Annwyl Jayne

**ADRODDIAD GWRANDAWIAD CYN PENODI PRIF WEITHREDWR Y COMISIWN ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am adroddiad y gwrandawiad cyn penodi ar yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo penodiad Simon Pirotte OBE yn dilyn ei wrandawiad cyn penodi. Rwyf wedi cadarnhau penodiad Simon mewn Datganiad Ysgrifenedig wedi hynny, ac edrychaf ymlaen at ei weld yn dechrau ar y swydd ym mis Medi.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried y broses ar gyfer y penodiad hwn ac, er fy mod yn sylweddoli nad yw safbwyntiau'r Pwyllgor ar y broses yn adlewyrchu ar addasrwydd Simon ar gyfer y rôl, roeddwn am ymateb ar rai agweddau sy'n ymwneud â'r broses.

Rwy'n gwerthfawrogi bod gan y Pwyllgor bryderon ers tro am y broses gwrandawiad cyn penodi ar gyfer penodiadau cyhoeddus, ond fel y mae'r adroddiad yn ei gydnabod, nid penodiad cyhoeddus oedd hwn. Penodiad Gweinidogol yw'r person cyntaf a benodir yn Brif Weithredwr y Comisiwn fel y nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Fodd bynnag, i gydnabod y rôl sylweddol y mae'r Pwyllgor yn ei chwarae ym myd addysg a phwysigrwydd y penodiad hwn, ymrwymais i wrandawiad rhagarweiniol yn ystod hynt y Ddeddf. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig, yn anad dim oherwydd nad yw'r broses benodi ar gyfer y Prif Weithredwr yn cael ei rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

Roeddwn yn amlwg yn siomedig pan gefais wybod nad oedd y panel recriwtio yn gallu argymell ymgeisydd addas i'w benodi yn dilyn proses recriwtio helaeth, agored a chadarn. Felly, ystyriais gyngor proffesiynol gan swyddogion a'n cwmni chwilio gweithredol penodedig ar rinweddau ailgynnal y broses. Roedd y cyngor hwn yn glir ynghylch y risgiau gweithredol i sefydlu'r Comisiwn a oedd yn gysylltiedig ag ailgynnal y broses a'r tebygolrwydd y byddai'n cynhyrchu canlyniad gwahanol mor fuan ar ôl cwblhau'r broses gychwynnol. Yn y cyd-destun hwn, bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi bod chwiliad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithredol eisoes wedi cysylltu â 190 o ymgeiswyr posibl o bob rhan o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Rwy'n gweld mwy a mwy o argymhellion a cheisiadau i'r Comisiwn weithredu mewn ffyrdd penodol cyn iddo gael ei sefydlu hyd yn oed, fel y gwelsom yn adroddiad y Pwyllgor ei hun ar Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch. Mae'n hanfodol y gall y Comisiwn wneud penderfyniadau mewn meysydd y bydd ganddo gyfrifoldeb amdanynt. Yn syml, ni fyddai'r Comisiwn wedi'i sefydlu ym mis Medi pe na bawn wedi penderfynu symud i benodiad uniongyrchol, ac ar ben hynny nid oes sicrwydd y byddai'r Comisiwn wedi bod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2024 pe bai'r ymarfer recriwtio wedi'i ailgynnal. Roeddwn o'r farn bod hyn yn ganlyniad annerbyniol i ddysgwyr yng Nghymru.

Nodaf fod adroddiad y Pwyllgor i'r Prif Weithredwr yn tynnu sylw at *"bryderon rhanddeiliaid yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil ynghylch diogelu annibyniaeth y Comisiwn. Mae'n bwysig nad yw'r broses recriwtio ar gyfer y swydd hollbwysig hon yn bwrw amheuaeth ar hynny mewn unrhyw ffordd"*. Rwy'n cytuno'n llwyr ei bod yn bwysig ein bod yn diogelu annibyniaeth y Comisiwn ond hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod penodiad Simon wedi'i groesawu'n eang ar draws y sectorau ôl-16 amrywiol. Nid camp fach yw hon ac, wrth gwrs, nid oes sicrwydd y byddai ailgynnal proses recriwtio agored wedi arwain at y canlyniad hwn.

Yn adroddiad gwrandawiad cyn penodi'r Pwyllgor sy'n cymeradwyo penodiad Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn, fe wnaethoch gyfeirio at eich *"siom nad yw cymysgedd cefndiroedd y ddau benodiad yn rhoi effaith i ehangder y sector"*. Rhoddais ystyriaeth ofalus i ymdrin â'r pwynt hwn wrth benodi'r Prif Weithredwr ac rwy'n hyderus bod sgiliau a phrofiad Simon yn ategu rhai yr Athro Fonesig Julie Lydon a'r Athro David Sweeney, gan sefydlu tîm arwain uchel ei barch sy'n gallu cyflawni ein gweledigaeth arloesol ac uchelgeisiol ar gyfer sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 4**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

19/06/2023

Annwyl Gadeirydd ac aelodau,

Hoffem rannu copi o bapur rydym wedi cyhoeddi ar y cyd ynghylch darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg. Fel comisiynwyr newydd, er ein bod ni'n sylweddoli ac yn awyddus gwarchod annibyniaeth ein sefydliadau, rydym yn sylweddoli hefyd bod dyletswydd arnom i gyd-weithio ar faterion os byddai gwneud hynny yn galluogi newidiadau positif ym mywydau plant a phobl ifanc Cymru. Dyma'r darn cyntaf o waith ar y cyd ar bwnc sydd wedi bod yn bryder i'n swyddfeydd yn ddiweddar.

Mae cyfrwng iaith darpariaeth ADY yn rhan annatod o safon ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth honno. Mae'r papur yn dod i'r casgliad nad yw'r gyfundrefn ADY yng Nghymru ar hyn o bryd yn adlewyrchu anghenion gwlad ddwyieithog. Er bod y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn sefydlu'r egwyddor y dylai'r gyfundrefn ADY yng Nghymru fod yn ddwyieithog, mae'r papur yn dangos bod ffordd bell i fynd er mwyn gwireddu'r weledigaeth hwn.

Ar sail y dystiolaeth, mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion gan gynnwys galw ar i Lywodraeth Cymru sefydlu tasgu cenedlaethol fyddai'n gyfrifol am gydlynu ymdrechion i wella'r ddarpariaeth ADY Cyfrwng Cymraeg ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r papur yn nodi'r prif faterion y dylai'r tasglu eu blaenoriaethu:

- Sicrhau bod awdurdodau lleol wedi adolygu eu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn llawn yn 2023
- Sicrhau bod adolygiadau o ddarpariaeth ADY yn lleol yn cael eu defnyddio i lunio a chyfeirio cynlluniau strategol i gryfhau'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg
- Datblygu'r sail dystiolaeth a chyfrannu at gynllunio adolygiad 5-mlynedd Gweinidogion Cymru o'r ddarpariaeth ADY yn y Gymraeg
- Datblygu cynigion ar gyfer ffurfioli trefniadau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.
- Arwain y broses o ddatblygu ymyriadau cenedlaethol mewn meysydd megis cynllunio'r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol

Rydym yn gobeithio bydd y nodyn a'r argymhellion o ddiddordeb i chi. Gwyddom fod y Pwyllgor yn monitro'r broses o weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, ac yn casglu tystiolaeth rhanddeiliaid i'r perwyl hwn. Gofynnwn felly i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad dan sylw fel tystiolaeth i'r ymchwiliad.

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

**Rocio Cifuentes**
Comisiynydd Plant

# Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol

*Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gyda'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.*

*Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cael ei osod yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001. Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hybu hawliau a lles plant.*

*Er ein bod yn gyrff annibynnol a bod gennym bwerau statudol penodol rydym hefyd yn credu bod lle i ni gydweithio mewn meysydd sy'n destun pryder i'r ddau gorff a lle mae gennym syniadau am sut y gellir gwella pethau. Ni ddylai plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru ddisgwyl dim llai gennym. Rydym yn rhannu'r dyhead i sicrhau newidiadau clir a chadarnhaol ym mywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r rhwystrau y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu wrth geisio derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.*


***1 Mehefin, 2023***


## Crynodeb

- Mae'r papur hwn yn rhannu tystiolaeth am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg. Mae'r dystiolaeth yn deillio o rôl Comisiynydd y Gymraeg fel ymgynghorai statudol ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) awdurdodau lleol, a hefyd o waith achos y Comisiynwyr.
- Dylai darpariaeth ADY yng Nghymru adlewyrchu anghenion gwlad ddwyieithog, a dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mae gan blant yr hawl i dderbyn addysg yn eu hiaith eu hunain.
- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ffordd bell i fynd er mwyn sicrhau cyfundrefn ADY cyfrwng Cymraeg. Mae heriau sylweddol, ac rydym yn derbyn nad hawdd fydd eu goresgyn ac ni fydd modd gwneud hynny dros nos.
- Mae'n hanfodol bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael ei gweithredu'n llawn er mwyn sbarduno cynllunio a gweithredu pwrpasol i sicrhau darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg sy'n gyfartal â'r ddarpariaeth Saesneg.
- I wneud hyn yn effeithiol, rhaid i awdurdodau lleol adolygu yn llawn y ddarpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg ac i ba raddau y mae'r anghenion hyn yn cael eu diwallu. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw hyn wedi digwydd ym mhob achos, ac mae hefyd felly yn codi cwestiynau ynghylch prosesau cynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth hon.
- Gofynnwn i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei dyletswydd i gynnal adolygiad cenedlaethol o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Yn y cyfamser, ni ddylid oedi wrth fynd i'r afael â rhai o'r heriau cenedlaethol amlwg sy'n bodoli, gan gynnwys diffyg gweithlu cyfrwng Cymraeg, diffyg adnoddau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg, a diffyg cysondeb mewn trefniadau cydweithio rhanbarthol.

## Ffeithiau allweddol

**Tabl 1:** Disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd fesul blwyddyn, cyfrwng iaith a math o ADY/AAA, 2021/22 - yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).




| | Holl ADY neu AAA | Dim datganiad | Datganiad | Gweithredu gan yr ysgol | Gweithredu gan yr ysgol a mwy | CDU a gynhelir gan yr ysgol | CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 15,670 | 14,415 | 1,255 | 8,430 | 5,175 | 640 | 170 |
| Cyfrwng Saesneg | 53,430 | 45,590 | 7,840 | 23,730 | 19,645 | 2025 | 190 |

- Mae gan tua 20% o ddisgyblion Cymru ryw fath o angen dysgu ychwanegol.
- O dan y gyfundrefn newydd, bydd pob disgybl sydd ag ADY, ac sydd angen darpariaeth dysgu ychwanegol, yn derbyn Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Fel mae'r data yn ei ddangos, megis cychwyn y mae'r gwaith o symud disgyblion i'r gyfundrefn CDU. Y bwriad gwreiddiol oedd gwneud hyn erbyn Awst 2024, ond mae rhywfaint o oedi wedi bod, a'r bwriad erbyn hyn yw cwblhau hyn erbyn Awst 2025.
- Mae dysgwr 'Cyfrwng Cymraeg' yn y data yn cyfeirio at ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwy ffrwd a dwyieithog. Nid yw o reidrwydd yn diffinio cyfrwng iaith y ddarpariaeth ADY.

## Cefndir

Mae cyfrwng iaith y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn rhan annatod o safon ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth honno. Ar hyn o bryd nid yw'r gyfundrefn ADY yng Nghymru yn adlewyrchu anghenion gwlad ddwyieithog. Roedd pasio Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf) yn drobwynt yn y cyd-destun hwn, gan wreiddio'r egwyddor y dylai'r gyfundrefn ADY yng Nghymru fod yn ddwyieithog, ac felly bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfartal â'r ddarpariaeth Saesneg.

Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ofynion pwysig o safbwynt y Gymraeg:

- Gofyniad i sefydliadau sy'n darparu ADY ystyried a oes angen i'r ddarpariaeth gael ei chynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, ac os felly i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth Gymraeg
- Pwerau i Weinidogion ddileu'r geiriad 'pob cam rhesymol' uchod yn y dyfodol, gan osod dyletswydd absoliwt i ddarparu ADY dwyieithog
- Gofyniad i awdurdodau lleol adolygu'n barhaus ddigonolrwydd darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg
- Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu adolygiadau o ddigonolrwydd darpariaeth ADY yn y Gymraeg bob 5 mlynedd

Daeth y Ddeddf i rym ym mis Medi 2021, ac mae'r ffocws bellach ar ei gweithredu.

### Gweithredu ar sail hawliau plant...

### Gweithredu'n ddwyieithog...




Mae gan blant hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae erthygl 30 y Confensiwn yn datgan fod gan blant yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi nodi yn Sylw Cyffredinol rhif 11 bod darparu addysg drwy gyfrwng iaith y plentyn yn hanfodol er mwyn gweithredu'r hawl hon. Yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth wneud penderfyniadau polisi.

Mae angen i'r pwyntiau uchod gael eu hystyried yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac sy'n sefydlu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

## Tystiolaeth o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac o waith achos y Comisiynwyr

Fel ymgynghorai statudol, yn ystod 2021-22 darparodd Comisiynydd y Gymraeg adborth ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) pob awdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru dan ddyletswydd statudol i ddatblygu a chyhoeddi CSCA, sy'n amlinellu eu targedau a'u cynlluniau ar gyfer gwella darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal. Un o ddeilliannau'r cynlluniau strategol yw sicrhau cynnydd a gwelliant i'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Mae'r pwyntiau isod yn crynhoi'r dystiolaeth sy'n deillio o waith craffu Comisiynydd y Gymraeg ar y CSCAau, ac maent hefyd yn seiliedig ar waith achos Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru.

- **Ar y cyfan prin iawn yw'r enghreifftiau lle mae'r CSCAau yn cynnig trosolwg manwl ac eglur o ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg.** Mae'r cynlluniau yn tueddu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd ar gael, ac nid ydynt yn gosod hyn yng nghyd-destun yr holl ddarpariaeth ADY sydd ar gael yn Saesneg. Canlyniad hyn yw ei bod yn anodd iawn deall i ba raddau y mae anghenion dysgwyr Cymraeg yn cael eu diwallu.
- Mae adran 63 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth ADY, gan gynnwys digonolrwydd darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. **Er hyn, mae nifer helaeth o awdurdodau lleol yn cydnabod yn y CSCAau nad oes ganddynt ddarlun llawn o anghenion ADY cyfrwng Cymraeg, nac ychwaith felly, i ba raddau y mae'r anghenion hyn yn cael eu diwallu.** Mae nifer helaeth yn ymrwymo i gynnal adolygiad cynhwysfawr yn y dyfodol, ond maent wedi methu â gwneud hynny fel rhan o'r broses cynllunio CSCAau.
- Nid yw'r asesiadau safonol a ddefnyddir i asesu ADY ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg bob tro.
- Fel yn achos asesiadau, mae diffyg adnoddau a chyfleoedd hyfforddi cyfrwng Cymraeg yn parhau'n broblem ar draws Cymru. Er bod pocedi o arfer da nid yw'n glir bod hyn wastad yn cael ei rannu ar lefel genedlaethol.
- Mae rhai enghreifftiau gwych o gydweithio rhwng awdurdodau lleol ar lefel ranbarthol. Mae'r enghreifftiau hyn yn gyfyngedig fodd bynnag, ac mae diffyg trefniadau cydweithio ffurfiol yn amlwg ym mwyafrif y CSCAau.
- Er bod rhai awdurdodau wedi adrodd eu bod yn gallu darparu yn Gymraeg ar gyfer pob math o ADY, **roedd mwyafrif yr awdurdodau yn adrodd am eu diffyg gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer nifer o anghenion.** Y patrwm cyffredinol oedd bod gan fwyafrif y siroedd rywfaint o ddarpariaeth gyffredinol cyfrwng Cymraeg (boed hynny yn gymorth o fewn ysgol, neu'n gymorth gan dimau allgymorth). Fel mae'r gefnogaeth yn mynd yn fwy arbenigol ac yn fwy cymhleth, ymddengys bod gallu awdurdodau lleol i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwanhau'n sylweddol.

**Tabl 2:** Adroddiadau o ADY neu AAA mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yn ôl cyfrwng iaith a math o angen, 2021/22 yn seiliedig ar ddata CYBLD

| Math o angen | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg |
|---|---|---|
| Anawsterau dysgu cyffredinol | 3,545 | 10,130 |
| Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu | 4,780 | 15,875 |
| Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 4,360 | 16,230 |
| Anawsterau dysgu cymedrol | 2,980 | 8,685 |
| Anawsterau ar y sbectrwm awtistig | 1,090 | 6,455 |
| Anawsterau corfforol a meddygol | 1,005 | 3,915 |
| Dyslecsia | 1,345 | 4,130 |
| Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd | 430 | 2,175 |
| Anawsterau dysgu difrifol | 260 | 860 |
| Nam ar y clyw | 410 | 1,635 |
| Nam ar y golwg | 230 | 710 |
| Dyspracsia | 215 | 495 |
| Anawsterau dysgu dwys a lluosog | 110 | 235 |
| Dyscalculia | 80 | 285 |
| Nam amlsynhwyraidd | 30 | 140 |

- Mae nifer helaeth o awdurdodau lleol yn cydnabod nad yw darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn cwrdd ag anghenion dysgwyr. **Naill ai mae disgyblion cyfrwng Cymraeg yn gorfod derbyn cefnogaeth drwy gyfrwng y Saesneg, yn methu â chael y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt, neu mae'r dysgwyr sydd ag ADY mwy cymhleth yn dewis addysg cyfrwng Saesneg o'r cychwyn gan eu bod eisoes yn ymwybodol o ddiffyg cefnogaeth cyfrwng Cymraeg.** Mae'r dystiolaeth hon o'r CSCAau yn ategu'r dystiolaeth rydym wedi ei derbyn yn sgil cwynion ac ymholiadau gan rieni, ac yn cael ei hadlewyrchu yn yr astudiaeth achos isod.

- Ymddengys bod dwy brif her o ran cynnig darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. **Y gyntaf yw diffyg gweithlu arbenigol sydd â'r sgiliau ieithyddol priodol.** Mae maint a chapasiti'r gweithlu ADY yn broblem sy'n cael ei chrybwyll gan bob awdurdod lleol, yn enwedig ym meysydd niwroamrywiaeth, ac anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol. Mae hyd yn oed yr awdurdodau sy'n cynnig darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg lawn yn nodi pryderon staffio mewn meysydd fel seicoleg addysg a namau synhwyraidd. **Yn ail, mae cynnig darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg yn anodd pan fo'r niferoedd fyddai'n debygol o fanteisio ar y ddarpariaeth yn gymharol fychan mewn nifer o siroedd.** Hynny yw, mae awdurdodau lleol yn cydnabod diffygion y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond yn methu â gweld atebion hawdd o ystyried cyfyngiadau adnoddau ac arian, a'r angen i ddarparu cefnogaeth ADY mewn ffordd sy'n ymateb i anghenion y mwyafrif. Yn y cyd-destun hwn dylid pwysleisio y gall ymarferwyr â sgiliau dwyieithog ddarparu ar gyfer sectorau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd.



- Er gwaetha'r diffygion amlwg sy'n bodoli yn y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru, **mae'r CSCAau hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da.** Mae nifer o brosiectau da yn digwydd ar hyd a lled Cymru. Er enghraifft, mae trefniadau cydweithio a rhannu adnoddau rhwng awdurdodau lleol, cynlluniau ar gyfer gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu ADY, a chynlluniau ar gyfer hyfforddi athrawon a chymorthyddion y sector cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Er hyn, nid yw'n amlwg fod yr enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli yn cael eu rhannu ar draws yr holl awdurdodau lleol, ac ar lefel genedlaethol.

## Astudiaeth achos

Cysylltodd rhiant â swyddfa Comisiynydd Plant Cymru (CPC) ynglŷn â'i blentyn, a oedd wedi cael diagnosis o anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylder y sbectrwm awtistig. Roedd y plentyn dan sylw yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn y prif lif ond nid oedd ganddo ddatganiad ADY na Chynllun Datblygu Unigol (CDU).

Roedd y rhiant wedi mynegi pryder na allai'r ysgol ddarparu ar gyfer anghenion y plentyn. Roedd y plentyn yn cael ei dynnu o'r ystafell ddosbarth yn aml ac yn cael ei addysgu ar wahân i'w gyd-ddisgyblion a byddai'r rhiant yn aml yn cael cais i ddod i nôl y plentyn yn ystod oriau ysgol oherwydd nad oedd modd ymdopi ag ymddygiad y plentyn. Awgrymodd yr ysgol y dylai'r rhiant symud y plentyn i ysgol arall er nad oedd ysgol cyfrwng Cymraeg arall yn yr ardal. Ni allai'r plentyn fanteisio ar yr addysg gyflawn y mae gan bob plentyn yr hawl iddi a'r addysg oedd ei hangen arno.

Cysylltodd CPC â'r ysgol a'r awdurdod lleol i holi am eu safbwynt hwy ynghylch y sefyllfa, ac i drafod sut gellid cefnogi'r plentyn. Trafododd CPC y sefyllfa â'r pennaeth, a gadarnhaodd fod yr ysgol wedi gofyn i'r rhiant godi'r plentyn o'r ysgol yn gynnar. Atgoffodd CPC y pennaeth fod gwahardd plant o'r ysgol yn anffurfiol yn anghyfreithlon, ac o ganlyniad, cadarnhaodd y pennaeth y byddai unrhyw waharddiadau yn y dyfodol yn rhai ffurfiol ac yn arwain at sail dystiolaeth ar gyfer panel ADY yr Awdurdod Lleol. Cadarnhaodd y pennaeth hefyd fod amserlen gyfyngedig wedi'i phennu ar gyfer y plentyn a bod cais wedi'i gyflwyno i'r awdurdod lleol ddatblygu CDU i'r plentyn oherwydd nad oedd darpariaeth yr ysgol yn diwallu ei anghenion.

Heriwyd yr awdurdod lleol gan CPC ynghylch y diffyg cefnogaeth i'r plentyn gan bwysleisio bod yr ysgol wedi gofyn am ragor o gymorth. Cafodd CPC ar ddeall y byddai'r awdurdod lleol yn cysylltu â'r ysgol oherwydd bod rhywfaint o ddryswch ynghylch y dystiolaeth a rannwyd gyda'r awdurdod lleol.

Wrth drafod y sefyllfa â CPC, mae'r rhiant yn dal i boeni y bydd unrhyw ddarpariaeth arbenigol i'r plentyn yn ddarpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r teulu dan sylw'n wynebu penderfyniad anodd ac annerbyniol: naill ai maent yn cadw'r plentyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg a derbyn amserlen a phrofiad addysgol hynod gyfyngedig, neu gallent benderfynu anfon y plentyn i ysgol cyfrwng Saesneg lle caiff y plentyn o bosibl addysg gyflawn, ond na fydd honno drwy gyfrwng eu dewis iaith.

## Prif gasgliadau ac argymhellion

Mae'n bwysig cydnabod yr anghyfiawnder sylfaenol sy'n bodoli o fewn y system ADY bresennol. Mae tystiolaeth ddiamwys fod nifer sylweddol o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg naill ai yn derbyn cefnogaeth drwy gyfrwng y Saesneg, neu ddim yn derbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn llawn. Mae hyn yn annerbyniol mewn gwlad ddwyieithog.

Mae gan ddarpariaethau'r Ddeddf y potensial i sicrhau darpariaeth ADY gwbl ddwyieithog yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y bydd angen amser i weithredu'r Ddeddf. Er hyn, y peryg ag unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth yw'r bwlch all ymddangos rhwng y bwriad cychwynnol a'r realiti wrth weithredu. Mae'r dystiolaeth yn y papur hwn yn tanlinellu'r her sy'n bodoli i wireddu amcanion y Ddeddf o safbwynt darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Bellach, dros ddwy flynedd ers i'r Ddeddf ddod i rym credwn fod angen ffocws penodol a phwrpasol ar ddarpariaeth Gymraeg er mwyn sicrhau bod gofynion y Ddeddf o safbwynt y Gymraeg yn cael eu gweithredu i'w llawn botensial.

Ac ystyried yr uchod, mae'n galonogol fod Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o amcanion a chamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, mae amcan 2.3(1) y cynllun yn ymrwymo i sefydlu is-grŵp i'r Rhwydwaith ADY Cenedlaethol a fyddai'n canolbwyntio'n benodol ar faterion megis sgiliau'r gweithlu, cyfleoedd dysgu proffesiynol, recriwtio ac adnoddau dysgu gyda golwg ar ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg a dwyieithog . Mae amcan 2.3(2) y cynllun yn ymrwymo i ariannu arweinydd gweithredu cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg i gynnig cyngor, cefnogaeth a her i'r sector i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf yng nghyswllt y Gymraeg.

Credwn y dylid cryfhau'r ymrwymiadau uchod ymhellach, ac y dylent fod yn sail ar gyfer sefydlu tasglu canolog a chenedlaethol sy'n gyfrifol am gydlynu ymdrechion i wella'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Dyma'r prif faterion a ddylai fod yn flaenoriaeth i'r tasglu:

- **Yn unol ag Adran 63 y Ddeddf, sicrhau bod pob awdurdod lleol wedi adolygu ei ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg cyn diwedd y flwyddyn.** Er bod y Ddeddf yn dweud bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu darpariaeth ADY yn barhaus, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw llawer o awdurdodau lleol yn deall yn llawn i ba raddau y mae anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Yr unig ffordd o fynd i'r afael â'r heriau yw drwy sicrhau dealltwriaeth lwyr a manwl o'r sefyllfa bresennol.

- **Sicrhau bod proses adolygu'r ddarpariaeth ADY yn lleol yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer llunio a chyfeirio cynlluniau i gryfhau'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, boed hynny drwy'r CSCAau neu'r cynlluniau strategol.** Mae'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn pwysleisio y dylai proses adolygu'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg fwydo i broses ffurfio'r CSCAau. Mewn llawer o achosion, nid yw hyn wedi digwydd ac mae'n tanseilio potensial y CSCAau fel fforwm ar gyfer cynllunio, adolygu a monitro cynnydd yn y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg. Rydym yn galw ar bob awdurdod lleol, unwaith y byddant wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau dan Adran 63 y Deddf, i ddiweddaru eu CSCA a/neu gynlluniau strategol ADY ehangach.

- **Datblygu'r sail dystiolaeth a chyfrannu at gynllunio adolygiad 5-mlynedd Gweinidogion Cymru o'r ddarpariaeth ADY yn y Gymraeg.** Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod llawer o'r heriau wrth ddarparu ar gyfer ADY yn y Gymraeg yn rhai cenedlaethol a systemig. Bydd adolygiad 5 mlynedd Gweinidogion Cymru o'r ddarpariaeth ADY yn Gymraeg yn ffurfio'r sail dystiolaeth allweddol ar gyfer cynllunio ymyriadau ac arwain newid ar lefel genedlaethol. **Gofynnwn i'r Llywodraeth flaenoriaethu ei gwaith mewn perthynas â'r ddyletswydd hwn, ac i gyhoeddi amserlen manwl am y gwaith heb unrhyw oedi (cyn diwedd 2023 ar yr hwyraf).**

- **Datblygu cynigion ar gyfer ffurfioli trefniadau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.** A chofio mai'r ddwy her fwyaf amlwg i awdurdodau lleol yw diffyg gweithlu arbenigol sydd â sgiliau Cymraeg yn ogystal â diffyg darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg benodol, mae'n hanfodol hyrwyddo trefniadau cydweithio a rhannu adnoddau. Mae dadl gref dros ystyried datblygu cynlluniau strategol rhanbarthol ar gyfer y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg a fyddai uwchlaw cynlluniau awdurdodau lleol. Rydym yn galw ar holl awdurdodau lleol i ystyried datblygu cynlluniau strategol rhanbarthol.

- **Ar sail adolygiadau lleol a chenedlaethol o'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, arwain y broses o ddatblygu ymyriadau cenedlaethol mewn meysydd megis cynllunio'r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol.** Gan adeiladu ar amcan 2.3(1) Cynllun Gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg, rydym yn gofyn i'r Llywodraeth sefydlu amserlen ar gyfer datblygu ymyriadau cenedlaethol a chyhoeddi ei chynlluniau mewn meysydd megis cynllunio'r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol.

**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 5**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Children, Young People and
Education Committee
seneddchildren@senedd.wales

Tuesday 20 June 2023

Dear Children, Young People and Education Committee,

**Subject: Additional information -**

I would like to thank the Committee for the invitation to provide oral evidence on the 18th of May 2023 regarding the **inquiry on education access for disabled children and young people.**

We promised the Committee to provide further evidence in relation to

1) education access in rural areas, and
2) assessments and specialist provision.

We contacted Francesca Wright of SNAP Cymru who kindly provided the following information and examples for the Committee.

SNAP Cymru is a national charity, unique to Wales, founded in 1986. Its main aim is to advance the education of people in Wales and support their inclusion.[1]

[1] https://www.snapcymru.org/

“From events we’ve done, we know that provision in rural and also coastal areas is much more limited, so children, particularly in mid-Wales often end up having to travel a long way to school, rather than being able to be educated in their local community. Parents from our more rural events recently reported to us “We need specialist schools for neurodiverse children academically average or able but needing smaller class sizes” and “It's a rural area, provision is often a 3 hour round trip from home” and “There is not enough ALN provision between mainstream and Specialist settings, lots of children fall into a black hole”. Another example is that Ceredigion and similar counties have a high number of children who are Electively Home Educated,  not because the parents really want to home school, they just feel they have no option, as there is very limited specialist provision available and no special schools. We have become aware of an increase in the number of children who are EHE increasing in many areas in Wales incidentally, however, we don’t think we have robust enough evidence to show that this is a problem particular to rural areas. We see the example in our casework from towns and cities too.

“Additionally, parents and carers report finding it much harder to get independent information and support when living in a more rural area.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

“Regarding your second question on the increase in families wanting to access specialist provision, our perspective on this is that it’s very possible that schools and LA’s are not able to do enough, early enough. Parents and carers would be far happier waiting for assessments if their child’s needs were being met in the meantime. Many families come to us at the point where provision has broken down so significantly, their child is on a reduced timetable and the school are persistently reporting they can’t meet the needs of the child. Often this is linked to lack of staff, funding etc. If schools were better resourced, to be able to provide highly targeted support to these children initially to meet their needs and keep them in school, then parents wouldn’t be pushing for specialist placements. But when they are constantly called to collect their child from school, sometimes on a daily basis their trust in the school being able to meet their child’s needs becomes eroded, they can cling onto the idea that a diagnosis is the only thing that will rectify the situation, and then they see specialist provision as the only option to stop the constant exclusions. We’ve worked with many families where parents have had to give up work as a result, reporting the school can’t meet their child’s needs and that all specialist provisions are full, or that their child doesn’t meet the criteria. We need to get



**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

much better at resourcing significant support for these children earlier to avoid situations where their mainstream placement becomes untenable due to failure to meet their needs, for whatever reason.

“We also still hear about a small number of schools telling parents they can’t support their child as they don’t have a diagnosis, which directly goes against the ethos of the new ALN code and the equality act. This simply isn’t the case, and again, without support at the earliest stage, situations tend to escalate when more professionals have to become involved, services like ours are accessed and parents and carers feel that the damage to their child’s education has already been done. They then look to specialist provision as they feel they have no other options.

“I can give you a very quick case study that I dealt with last week. An LA asked us to provide disagreement resolution for them as a parent wanted an independent specialist placement for her child and the LA felt that their own LA specialist provision could meet need. On investigation, the parent was dealing with daily calls from their highly specialist behavioural provision to collect her child, there were constant incidents and issues and regular exclusions. Parent reported she felt on edge daily waiting for the phone to ring. Rather than

addressing these issues and supporting parent to work with school to look at why the exclusions were happening, their stance was simple. Parental request wasn't appropriate, and a revised statement issued with the LA placement named was going to be issued. Therefore, this parent is now likely to make an appeal to tribunal for the Independent specialist placement if that goes ahead."

Francesca Wright SNAP Cymru

https://www.snapcymru.org/

If the Committee requires further information in relation to the inquiry from the Commission, please let us know.

Yours sincerely,



Ruth Coombs

Head of Wales

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

**Direct telephone:** 029 2044 7710

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

**equalityhumanrights.com**

**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 6**

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Mehefin 2023

Annwyl Jayne

**Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**

Yn dilyn fy natganiad i'r Senedd ddoe, roeddwn am achub ar y cyfle i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi gweithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o ganlyniad ('y Comisiwn').

Fel y dywedais pan ysgrifennais at y Pwyllgor yn flaenorol, rwy'n mabwysiadu dull graddol o weithredu'r Ddeddf ar sail yr egwyddorion canlynol:

- sicrhau parhad y ddarpariaeth i'r sector heb unrhyw darfu amlwg ar ddarparwyr neu ddysgwyr wrth sefydlu'r Comisiwn,
- osgoi baich gormodol ar ddarparwyr yn ystod y cyfnod gweithredu, er enghraifft rheoli a chydamseru maint ac amseriad yr ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol,
- defnyddio'r dyletswyddau strategol, fel y nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf, fel sylfaen graidd ar gyfer gwaith y Comisiwn o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys paratoi a chyhoeddi datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru.

Sefydlu'r Comisiwn

Yn unol â'r llinell amser gweithredu lefel uchel a nodais yn fy llythyr blaenorol, bydd y Comisiwn yn cael ei sefydlu ym mis Medi ar ôl i Simon Pirotte ddechrau yn ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau cyffredin y Bwrdd ddechrau yn eu swyddi nhw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Yn ystod cyfnod toriad yr haf byddaf yn gwneud yr ail Orchymyn cychwyn mewn perthynas â'r Ddeddf, a fydd yn galluogi'r Comisiwn i arfer swyddogaethau penodol rhwng Medi 2023 ac Ebrill 2024. Rydym yn cyfeirio at y cyfnod hwn fel y cyfnod sefydlu.

Bydd y swyddogaethau y bydd y Comisiwn yn gallu eu harfer yn ystod y cyfnod hwn naill ai'n gorfforaethol neu'n weithredol eu natur, fel y rhai yn Atodlen 1 i'r Ddeddf mewn perthynas â phenodi staff neu sefydlu pwyllgorau er enghraifft, neu'n swyddogaethau a gychwynnir yn rhannol at y diben o alluogi'r Comisiwn i ddechrau datblygu elfennau penodol sy'n ofynnol i gefnogi gweithredu diwygiadau allweddol.

Pan fydd y Gorchymyn Cychwyn wedi'i wneud, byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau yn y Ddeddf y byddaf yn dod â nhw i rym a sut y gall y Comisiwn ddewis arfer y swyddogaethau hynny yn ystod y cyfnod sefydlu.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd CCAUC yn cadw cyfrifoldeb am ariannu, ansawdd a rheoleiddio addysg uwch, tra bydd Llywodraeth Cymru yn cadw cyfrifoldeb am addysg bellach, prentisiaethau, a'r chweched dosbarth ac ati. Wedyn bwriedir i'r Comisiwn ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2024 ar ôl diddymu CCAUC.

<u>Is-ddeddfwriaeth</u>

Fel y dywedais yn ystod y broses graffu, bydd gweithredu'r Ddeddf yn gofyn am wneud ystod o is-ddeddfwriaeth; ac fe wnes i osod y cyntaf ohonynt, sef Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023, gerbron y Senedd yn gynharach y mis hwn.

Mae Atodiad A yn nodi'r offerynnau statudol yr wyf yn bwriadu ymgynghori arnynt, ac wedyn eu gwneud, dros y misoedd nesaf, gyda'r bwriad polisi mewn perthynas â'r rhain yn parhau i raddau helaeth fel y nodir yn y datganiad o fwriad polisi a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ddeddf pan gafodd ei gyflwyno i'r Senedd.

Mae Atodiad A hefyd yn crynhoi pwrpas arfaethedig pob offeryn statudol, er bod hyn wrth gwrs yn amodol ar ein hystyriaeth o unrhyw ymatebion a geir i'r ymgynghoriadau perthnasol.

Yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth sylweddol a nodir yn Atodiad A, bydd hefyd angen gwneud Rheoliadau i adlewyrchu'r diwygiadau canlyniadol gofynnol i'r ddeddfwriaeth bresennol, ochr yn ochr â gwneud y Gorchmynion cychwyn angenrheidiol.

Mae gweithredu'r Ddeddf yn ymgymeriad sylweddol yr wyf yn rhagweld y bydd yn parhau hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon, yn unol â'r egwyddor o osgoi baich gormodol ar ddarparwyr. Byddaf yn parhau i roi diweddariadau i'r Comisiwn wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Os oes gennych chi, neu aelodau eich Pwyllgor, unrhyw gwestiynau penodol yn y cyfamser, byddwn yn falch o ddarparu gwybodaeth ychwanegol lle bo'n bosibl.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a byddaf yn ei rannu â'n rhanddeiliaid er gwybodaeth.



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Atodiad A – Gweithredu'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Is-ddeddfwriaeth**

| Offeryn statudol | Pwrpas | Amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymgynghori ar yr OS drafft | Amserlen a ragwelir ar gyfer gwneud yr OS |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) | Y bwriad yw gwneud darpariaeth mewn perthynas â chofrestru darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, yn ymwneud â'r canlynol:<br><br>• Categorïau o wariant<br>• Pennu'r categori y mae'r amod terfyn ffioedd yn berthnasol iddo<br>• Nifer cyfyngedig o amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus ychwanegol<br>• Pennu pa gategori y mae'n rhaid i ddarparwr fod wedi cofrestru ynddo i fod yn gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg uwch neu ymchwil ac arloesi | Hydref 2023<br>*Ymgynghoriad ar y cyd ar bob un o'r Offerynnau Statudol hyn a'r bwriad polisi mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol yn y dyfodol sy'n angenrheidiol i gwblhau gweithredu'r system gofrestru* | Gwanwyn 2024 |
| Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Dynodi Darparwyr) (Cymru) | Y bwriad yw gwneud darpariaeth ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol yn sefydliad o dan adran 83(4) o'r Ddeddf | | |
| Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) | Y bwriad yw gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau a wnaed gan y Comisiwn o dan adrannau 45 a 78 o'r Ddeddf | | |
| Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 56 o'r Ddeddf Economi | Y bwriad yw darparu ar gyfer dileu CCAUC ac ychwanegu'r Comisiwn i'r rhestr o bersonau a all rhannu gwybodaeth at ddibenion | Hydref 2023 | Chwefror 2024 |

| Offeryn statudol | Pwrpas | Amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymgynghori ar yr OS drafft | Amserlen a ragwelir ar gyfer gwneud yr OS |
|---|---|---|---|
| Ddigidol i ddiwygio Atodlen 8 o'r Ddeddf honno | gweithredu i fynd i'r afael â thwyll yn erbyn y sector cyhoeddus | | |
| Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 57(4) o'r Ddeddf | Y bwriad yw disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), gan fod y pŵer galluogi y gwnaed y Rheoliadau hynny oddi tano yn cael ei ddiddymu fel rhan o weithredu'r Ddeddf. | Hydref/Gaeaf 2023 | Chwefror 2024 |
| Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) | Mae'n darparu i'r Comisiwn fod yn gorff ystadegol swyddogol | Ni fwriedir cyhoeddi'r OS drafft ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gan fod y cynnig i'r Comisiwn gael ei ddynodi'n gorff ystadegol swyddogol wedi'i nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil. Fodd bynnag, y bwriad yw ymgynghori ag Awdurdod Ystadegau'r DU cyn gwneud y Gorchymyn Diwygio. | Mawrth 2024 |
| Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 94 o'r Ddeddf | Y bwriad yw pennu 'addysg a hyfforddiant perthnasol' at ddibenion dyletswydd y Comisiwn i sicrhau darpariaeth cyfleusterau priodol yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol i bersonau cymwys dros 19 oed | Dechrau 2024 | Erbyn haf 2024 |

**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 7**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

22 Mehefin 2023

**Capasiti'r gwasanaeth sifil**

Annwyl Mark,

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal cyfres o ddarnau o waith sy'n ymwneud â phortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon. Mae pob darn o'r gwaith hwnnw wedi tynnu sylw at bryderon am gapasiti'r gwasanaeth sifil yn yr adran benodol honno yn Llywodraeth Cymru, fel y nodir isod.

## Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

Credwn y gallai capasiti'r gwasanaeth sifil yn adran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn ei gwneud yn heriol i'r Gweinidog a'i dirprwyon ddarparu'r manylion ac ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig sydd eu hangen arnom i gynnal gwaith craffu effeithiol o fewn amserlenni tynn y Gyllideb. Nodwn ein pryderon yn fanylach yn ein llythyr at y Pwyllgor Cyllid dyddiedig 25 Mai 2023.

## Ymchwiliad i ddiwygio radical o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal." Fodd bynnag, gwnaethom lansio ein hymchwiliad ym mis Gorffennaf 2022 oherwydd, ar yr adeg honno yn y Senedd, ni chafwyd ond ychydig iawn o eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch beth oedd ystyried diwygio radical yn ei olygu yn ymarferol.

Yn ystod ein hymchwiliad, gwelsom nad oedd prinder ymrwymiad i ddiwygio radical ar ran y Dirprwy Weinidog nac yn wir ar ran y Prif Weinidog (sydd wedi gwneud ymrwymiadau personol i leihau nifer y plant mewn gofal). Canfuom hefyd fod cefnogaeth eang ymysg rhanddeiliaid a phlant a phobl ifanc eu hunain ar gyfer diwygio radical, a bod llawer o syniadau uchelgeisiol ac argyhoeddiadol sy'n

seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer sut y gallai'r diwygio radical hwnnw edrych. Roedd y syniadau hynny'n cyfrannu i'n hadroddiad, sy'n nodi cynigion ar gyfer 12 o ddiwygiadau radical a chyfres o welliannau posibl eraill i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r hyn a glywsom gan rai rhanddeiliaid yn ystod ein hymchwiliad yn awgrymu nad yw cyflymder datblygu a gweithredu polisi ar lefel y gwasanaeth sifil yn cymharu ag ymrwymiad gwleidyddol i ddiwygio radical ar lefel weinidogol. Mae rhai o'r enghreifftiau polisi y cawsom dystiolaeth yn eu cylch wedi awgrymu bod hyn, yn rhannol o leiaf, oherwydd capasiti annigonol. Gan edrych tua'r dyfodol, mae gennym bryder y gallai diffyg capasiti yn y gwasanaeth sifil lesteirio parodrwydd a gallu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'n cynigion.

## Ein hymholiadau ynghylch creu gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant

Ar 29 Ionawr, ysgrifennais i a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Cawsom ymateb ar 5 Ebrill, ac fe'i trafodwyd gennym ar 3 Mai.

Testun pryder i ni yw'r ffaith i'r Dirprwy Weinidog ddweud yn yr ymateb hwnnw fod toreth yr ohebiaeth yn achosi oedi i'w hamseroedd ymateb. Fel y gwyddoch, yr arfer cytunedig yw i Lywodraeth Cymru ymateb i'n gohebiaeth o fewn 6 wythnos. Mae ymatebion amserol i geisiadau Pwyllgorau am wybodaeth yn hanfodol i ni allu cyflawni ein gwaith craffu yn effeithiol. Rydym yn cydnabod bod ymateb i ohebiaeth y Pwyllgor yn cymryd amser ac nad yw ond yn rhan fechan o ddyletswyddau swyddogion Llywodraeth Cymru. Serch hynny, rydym yn pryderu y gallai cyfyngiadau ar gapasiti'r gwasanaeth sifil effeithio'n negyddol ar ein gallu i graffu'n briodol ar adrannau'r Llywodraeth.

Deallaf fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn craffu ar gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru, a bod ystyried capasiti gweithlu Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith craffu hwn. Rwy'n mawr obeithio y gall y wybodaeth fwydo i mewn i'r broses graffu honno, a'i bod yn eich cefnogi yn y gwaith pwysig hwnnw.

Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw un o'r materion uchod, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor. Fel arall, byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'm Pwyllgor am unrhyw gasgliadau neu argymhellion y byddwch yn dod iddynt sy'n ymwneud â'r materion a godwyd yn y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 2.8

**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 8**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

23 Mehefin 2023

Annwyl Rebecca,

Dogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

Yn ein hadroddiad ar graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, daethom i'r casgliad a ganlyn:

> *"Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau."*

Anfonwyd llythyr wedi hynny at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ar 8 Mawrth 2023, a oedd yn gofyn y cwestiwn hwn:

> *"Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?"*

Cawsom ymatebion gan Gadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn ac mae'r holl ymatebion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Senedd:

- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
- Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o themâu cyffredin a meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau i broses y gyllideb. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

### Amseroldeb

Fel pwynt cyffredinol, nododd nifer o'r Pwyllgorau fod y duedd yn y blynyddoedd diwethaf o gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan arwain at gwtogi amserlen y gyllideb, wedi'i gwneud yn heriol i asesu effaith y Gyllideb Ddrafft yn ystyrlon ar y meysydd polisi o fewn eu cylchoedd gwaith. Roedd rhai pwyllgorau o'r farn bod hwn yn wendid allweddol sy'n amharu'n sylweddol ar allu'r Pwyllgorau i ystyried cynigion cyllidebol yn fanwl.

### Tryloywder

Roedd llawer o'r Pwyllgorau yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn y ffordd y mae'n cyflwyno ei gwybodaeth yn y Gyllideb Ddrafft. Yn benodol, teimlai'r Cadeiryddion y dylid nodi'n glir effaith penderfyniadau cyllidebol ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor.

Mae hyn yn adleisio Argymhelliad 13 yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:

- asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real; ac
- asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).

Mewn ymateb, gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi:

> *"Er ein bod wedi ymrwymo i wella sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau gwariant ac yn amlinellu eu heffeithiau, rhaid i ddull o'r fath fod yn gymesur.*
>
> *Rydym eisoes yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, sy'n cynnwys ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu yn y Senedd, ac sy'n rhoi cyfrif manylach ar sut y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol neu wedi ystyried materion megis atal. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwariant.*
>
> *Rydym yn agored i ystyried newidiadau pellach y gellid eu gwneud fel rhan o waith y Cynllun Gwella'r Gyllideb."*

### Ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai Cadeiryddion yn dweud nad oedd cyflwyniadau gweinidogion mor gynhwysfawr ag yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. Galwodd eraill hefyd ar adrannau Llywodraeth Cymru i ymateb yn llawn ac yn fanwl i gais ysgrifenedig pob Pwyllgor am dystiolaeth.

### Ymateb i argymhellion cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol

Yn olaf, roedd nifer o'r Pwyllgorau yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb i argymhellion y Gyllideb Ddrafft ddigon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Roedd rhai Pwyllgorau yn teimlo hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro'r gwahaniaethau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Rydym yn croesawu eich parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar y materion hyn a'r ffaith eich bod yn agored i drafod newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i'r pryderon hyn gael eu hystyried cyn cylch cyllideb 2024-25.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd a grybwyllwyd uchod.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 9**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru

26 Mehefin 2023

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth am gasglu data ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn llywio ymholiad ac adroddiad y Pwyllgor ar ddiwygiad radical o'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Yn eich llythyr fe gyfeirioch at adborth gan randdeiliaid bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad yn ddiweddar o gyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn ystyried y casgliad data, ac fe wnaethoch ofyn am ragor o fanylion.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal cyfarfod Grŵp Adolygu Data Plant bob mis i drafod y data a gesglir yn y cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, ac elfen plant y Fframwaith Perfformiad a Gwella, a'r broses o gasglu data perfformiad.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol godi materion a cheisio eglurder ynglŷn â'r broses o gasglu data. Gall y casgliadau newid o ganlyniad i'r trafodaethau hyn a gwneir unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt i'r canllawiau ar gyfer casglu yn y flwyddyn ganlynol. Felly, bydd unrhyw gamau y cytunwyd arnynt o gyfarfodydd 2022/23 yn ymddangos yn y canllawiau casglu data ar gyfer 2023/24. Mae'r canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Efallai bydd y Pwyllgor hefyd am nodi mai'r prif newidiadau o ran data ar blant sy'n derbyn gofal, a fydd yn ymddangos yng nghasgliadau data 2023/24, yw:

- Yn y cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal:
  - Ehangu'r categorïau ethnigrwydd
  - Dealltwriaeth well o pryd y bydd plant yn cael eu maethu naill ai drwy asiantaethau nid-er-elw neu asiantaethau preifat
  - Manylion gwell ynghylch gorchmynion lleoli ar gyfer mabwysiadu
- Esboniad ynghylch ymweliadau ac adolygiadau i blant sy'n derbyn gofal yng nghasgliad data'r Fframwaith Perfformiad a Gwella.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio bod fy ymateb yn ddefnyddiol ichi a bod y dystiolaeth a ddarparwyd yn eich llythyr yn taro goleuni pellach. Edrychaf ymlaen at ddarllen yr adroddiad terfynol gan y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 10**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

26 Mehefin 2023

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Annwyl Efa,

Yn ddiweddar, gwnaethom lansio ymchwiliad newydd ac eang sy'n edrych ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at addysg a gofal plant. Mae'r ymchwiliad hwn yn cael ei osod yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Rydym yn gofyn p'un a yw darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi cadw'r cwmpas yn eang yn bwrpasol gan gwmpasu pob agwedd ar ddarpariaeth ysgol statudol a gofal plant. Mae'n cwmpasu niwrowahaniaeth ac anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar dudalen we ein hymchwiliad, gan gynnwys sut i ymateb i'r ymgynghoriad: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=40923

Cynhaliwyd ein sesiynau tystiolaeth lafar cyntaf gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Mai. Yn ystod y sesiwn hon, clywsom fod y Comisiynydd Plant ar fin cyhoeddi darn o waith ar y cyd â chi yn edrych ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Cytunwyd i rannu'r gwaith hwn gyda ni pan fydd ar gael, ac maent wedi gwneud hynny bellach. Gwnaethant hefyd nodi y gall fod rhwystr ychwanegol i blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n dymuno mynd i addysg cyfrwng Cymraeg.[1]

Yn ogystal â thynnu eich sylw at y gwaith hwn, roeddem am ofyn a oes unrhyw faterion penodol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant a phobl

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff [77]

ifanc niwrowahanol neu anabl y teimlwch y dylai’r Pwyllgor fod yn edrych arnynt fel rhan o’r ymchwiliad hwn.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am yr ymchwiliad neu ein cais penodol, cysylltwch â’r Clerc, Naomi Stocks ar 0300 200 6222 neu seneddplant@senedd.cymru

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 2.11

**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 11**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

26 Mehefin 2023

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Annwyl Derek,

Yn ddiweddar, gwnaethom lansio ymchwiliad newydd ac eang sy'n edrych ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at addysg a gofal plant. Mae'r ymchwiliad hwn yn cael ei osod yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Rydym yn gofyn p'un a yw darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi cadw'r cwmpas yn eang yn bwrpasol gan gwmpasu pob agwedd ar ddarpariaeth ysgol statudol a gofal plant. Mae'n cwmpasu niwrowahaniaeth ac anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar dudalen we ein hymchwiliad, gan gynnwys sut i ymateb i'r ymgynghoriad:
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=40923

Gwnaethom gynnal ein sesiynau tystiolaeth lafar cyntaf gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Mai. Nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mai un o'r rhwystrau i addysg gynhwysol, fel y rhagwelwyd gan y Cenhedloedd Unedig, yw adeiladau ffisegol yr ysgolion, nad ydynt efallai'n hygyrch i blant niwroamrywiol, neu rai sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd.[1]

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar i ba raddau y cydymffurfir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o ran ysbryd ac o ran bwriad, wrth gyflawni rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. A ydych yn ymwybodol o unrhyw bryderon a godwyd gyda'ch swyddfa ynghylch i ba raddau y mae pob rhan o'r gymuned yn cymryd rhan wrth ddylunio a darparu ystadau ysgolion newydd neu wedi'u hailddatblygu? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn pa mor dda yr ymgysylltir ac ymgynghorir â

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff [122]

phlant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd mewn ffordd ystyrlon, ond byddem yn croesawu unrhyw farn ehangach hefyd. Byddai gennym ddiddordeb hefyd mewn gwybod a yw hyn yn broblem ehangach wrth ddatblygu a dylunio adeiladau â phwrpas cymdeithasol neu rai sy'n cael eu darparu drwy arian cyhoeddus.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am yr ymchwiliad neu ein cais penodol, cysylltwch â'r Clerc, Naomi Stocks ar 0300 200 6222 neu seneddplant@senedd.cymru

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 12**

Ethnic Minorities & Youth Support Team Wales | Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru

**FAO Children, Young People and Education Committee**

We are writing to the Children, Young People and Education Committee to highlight concerns around racist bullying in schools. Albeit not a new issue, we specifically want to share the following:

- Challenges around reporting bullying for children and young people in schools.
- The lack of recording of bullying as race related by schools and local authorities.
- School exclusions and ethnic minority pupils, including racist bullying as a contributing factor to behavioural issues.

We will share case studies[1] with you to highlight these issues, to communicate the urgent situation of these young people that we are supporting.

**Our work at EYST Wales**

Ethnic Minorities & Youth Support Team Wales (EYST) was established in 2005 to ensure all ethnic minority young people could reach their full potential in Wales. We offer many areas of support including youth, family, asylum seekers and refugees, as well as engaging with the wider community to challenge negative perceptions of those from ethnic minority backgrounds living in Wales. During this time, we have found that issues in education really do have wider impacts for family members (family conflict and breakdowns, parents not believing and invalidating children's experiences) and the community (mistrust in education and authority figures). It has been difficult to hear these stories from young people of what they are going through in schools, often with little recourse to solve the issue. Despite EYST being established nearly 20 years ago, the stories and experiences are worryingly similar to when it started.

Young people experience all forms of racism in schools. They experience both direct racism (name calling, attacks) and indirect racism (microaggressions such as being underestimated by teachers, told they speak English well, asked where they are from). Through these forms of racism, from an early age they are excluded, told they do not belong, and are not treated equally to their white peers – especially in terms of aspirations and discipline. This can result in young people experiencing many forms of identity-based issues, including serious mental health issues (suicidal thoughts and attempts) and a lack of progression after school due to confidence, trust, and lack of aspiration. Starting at a very young age, the seeds for inequality are sown in our schools. These ethnic minority young people experience the same problems year upon year with, seemingly, very little action or changes at a higher level (please see evidence from EYST Wales[2] & Race Alliance Wales).

**In response to this ongoing concern, we are asking the committee to consider escalating some of these issues with the Minister for Education and within the committee's inquiry review process.** We will now outline three complex cases of racist bullying in schools across Wales, namely in Wrexham, Carmarthenshire, and Cardiff. All three cases are ongoing with wider impacts on these young peoples' families, friends, and communities.

[1] Trigger warning: These case studies include references to racism, threats of sexual assault and suicide.

[2] https://eyst.org.uk/assets/racism-in-education-2021-where-are-we-now-forum-notes.pdf

**Wrexham, primary school pupil**

A 7-year-old boy in Wrexham has been experiencing racist bullying from his peers in his primary school. He is called names due to his skin colour and his clothes are torn regularly. The boy is emotionally affected, he has lost his confidence and has started to refuse to go to school.

Mum has spoken with the school many times about this, but the school has not done anything to address her concerns. There have been no efforts to discipline or educate the perpetrators for these worrying actions. The school has suggested that mum should place her child in home schooling as a solution. Mum has also spoken to local authority who told her to report the incidents to the police. When she did this the police said they couldn't do anything as the children are minors.

Mum is afraid that one day the child will react to the bullying with aggression which will mean he is excluded from school. He would only be defending himself if this were the case, but he would end up with the punishment.

**Carmarthenshire, secondary school pupils**

A brother (12 years old) and sister (14 years old) in a Carmarthenshire school, are experiencing racist bullying, including name calling and threats, both in school and when leaving school. In particular, the sister is being targeted by a group of girls, picking on her ethnicity and faith, telling her to "just kill yourself'. The words of these bullies are particularly heavy for her, and she is struggling with her mental health. She finds it difficult to talk to parents about what the bullies are saying due to cultural stigma, especially around suicide.

This matter has been escalated to the police, but the family are currently waiting for the police to take a statement and have been waiting for a few weeks. The school has said it doesn't need to be involved because it is now a police matter. They have provided 'safe spaces' to the brother and sister (come to school early/late) but this is disruptive for young people but are not tackling the root of the issue, the bullies and their actions.

***What do we want to see?***

There is a great deal of inconsistency across schools in dealing with racism, not giving it the attention and gravity that it deserves. These young people could become another statistic. They could become yet another school exclusion case due to sustained racist bullying experienced during their formative years.

We would like to know:

- How does Welsh Government intend for local authorities and schools to start recording bullying incidents under race?
- How does Welsh Government ensure independent and transparent monitoring of bullying cases, especially when schools record their incidents with the local authority?

**Cardiff, secondary school pupil**

As part of our school exclusions work, the Right to Education service aims to provide support and advocacy for ethnic minority young people and their families when navigating the school exclusions process. We feel that this work has further highlighted the need to address racist bullying in schools as nearly all our cases received so far have escalated from the young person/peers being bulled due to their race. Ethnic minority young people are not treated equally by school guidance and policies, ultimately resulting in school disengagement and exclusion.

A boy in year 9 who was a model student in school was permanently excluded for pushing two members of staff. Whilst we do not seek to excuse the behaviour, we believe there were mitigating circumstances. It is those mitigating circumstances that led this boy to losing control which resulted in him pushing two members of staff. The model student has been attempting to support and protect his younger sister who has been constantly racially bullied in school by three boys. In addition, the same three boys have been targeting his family home by throwing stones at the house and harassing those inside. These incidents have been taking place over months and their mother repeatedly reported it to the school, but nothing changed. On the day of the incident the boy reacted to the same boys that had been bullying his sister. They boys called him and his sister racist names in an inappropriate manner which led to him losing control. He was permanently excluded. The mum appealed to both the governors and independent review panel which both decided to uphold the exclusion.

Following his exclusion, a message was received by his younger sister stating that the three boys had been heard plotting to beat up and then rape her. This has been reported to the Police who felt it serious enough to allocate a crime number to the complaint and only then the school decided to put a safety plan in place. The actions of these boys are not only deemed as bullying but can also be classed as a hate crime, given the racial elements involved in the bullying of the boy and his younger sister. This, we would argue, is a good indication of what this family has had to endure over a long period of time. The bullies have not acknowledged that their behaviour was unacceptable but have instead increased the severity of threats, being aware that the brother is no longer in the school to protect his younger sister.

Thankfully, the boy is now enrolled in another school, but his younger sister is still experiencing bullying in the same school. Her mental health is deteriorating. Just like her brother, she is very bright but has now lost her confidence and self-esteem due to what happened. She blames herself every single day for seeking comfort from her brother. She blames herself for her brother's exclusion as a result of the racist comments by bullies. The single mum also suffered from a loss of earnings as she had to take 6 weeks off work to deal with the situation. This case clearly captures the wider and long-term impact of racist bullying in schools.

***What do we want to see?***

Welsh Government's school exclusions guidance says to *"check whether the incident may have been provoked, e.g. by bullying or by racial or sexual harassment"* (p.10, Welsh Government Exclusions Guidance).

We would like to know:

- How is the current revision of schools' exclusion guidance going to make these criteria clearer for headteachers when excluding pupils?
- Will the revision of school exclusion guidance be put out for consultation or review? If not, is there diverse representation in the group who are reviewing this guidance?

These are just three recent examples which only show a small snapshot of the wider picture in Wales. We want the committee to be aware of these issues in your ongoing correspondence and inquiries as the issues stemming from racist bullying in schools can be cross cutting with other areas, such as poverty, mental health and those young people with Additional Learning Needs (ALN).

We understand the issues presented here are wide ranging, but we strongly believe that preventative steps to challenge racist bullying in schools will counter escalation to negative outcomes for ethnic minority young people, such as: lower school attendance, poor mental health, and school exclusion rates. If Welsh Government can do more to guide local authorities and schools to be transparent and encouraging in their reporting of racism in schools, we believe that longer term problems can be alleviated and prevented.

We deeply appreciate the committee taking the time to listen to our concerns and for reading this letter.

Yours sincerely,

Jami Abramson & Amira Assami
Right to Education Project Development Leads

jami@eyst.org.uk/ amira@eyst.org.uk

*Sent on behalf of EYST Wales*

**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 13**

28 Mehefin 2023

Annwyl Gyfaill

Ar ôl misoedd lawer o ddadansoddi trylwyr ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, rydym wedi cyhoeddi ein **hadroddiadau ar benderfyniadau'r ymgynghoriad TGAU Gwneud-i-Gymru** heddiw.

Gyda dros 2,100 o ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddiwygio TGAU, mae cyd-greu gyda rhanddeiliaid fel chi wedi ein galluogi ni i ddefnyddio arbenigedd maes pwnc i fodloni anghenion dysgwyr. Felly, diolch i chi am y rhan y gwnaethoch chi ei chwarae yn y gwaith diwygio cyffrous hwn.

Fe wnaethom ni ystyried yn ofalus yr holl adborth a gawsom cyn cwblhau ein penderfyniadau, a gallwch nawr ddarllen **canlyniadau llawn yr ymgynghoriad, y crynodeb gweithredol**, ac **adroddiadau penderfyniadau pwnc** yn fanwl, ochr yn ochr ag **adroddiad sy'n addas i bobl ifanc**.

Gan gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac adlewyrchu ei egwyddorion cynnydd a'i bedwar diben, bydd y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru dwyieithog hyn yn datblygu sgiliau cyfannol a thrawsbynciol dysgwyr. Byddant yn cynnig sgiliau i ddysgwyr fydd yn eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu parhaus, a gwaith, gan eu helpu i ddod yn gymwys ar gyfer y dyfodol.

Mae llais y dysgwr wedi bod yn ganolog i'n gwaith o lunio cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd sydd:

- yn paratoi dysgwyr ar gyfer heriau cymdeithas fodern ac yn adlewyrchu amrywiaeth a'r byd rydym yn byw ynddo

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



cymwysterau.cymru

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

- yn ymgorfforі technolegau digidol er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n addas ar gyfer y dyfodol
- yn cynnwys ystod o ddulliau asesu perthnasol, difyr ac amrywiol
- yn cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol ac yn hyrwyddo profiadau addysgu a dysgu cadarnhaol
- yn helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau ystyrlon ar draws eu dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Byddwn nawr yn gweithio'n agos gyda CBAC a Llywodraeth Cymru i ddatblygu manylion y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd hyn. Bydd y don gyntaf o gymwysterau TGAU newydd yn cael eu cymeradwyo erbyn mis Medi 2024, gan roi blwyddyn academaidd lawn i ysgolion baratoi ar gyfer eu haddysgu gyntaf ym mis Medi 2025. Bydd nifer fach o gymwysterau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno mewn ail don yn 2026.

Bydd pecyn o adnoddau addysgu a dysgu ar gael i gefnogi'r cyfnod pontio, a byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Hadroddiad Rheoli Newid yn ddiweddarach eleni.

**Rhagor o wybodaeth**

Os hoffech gael gwybod rhagor am ganlyniadau'r ymgynghoriad a phenderfyniadau lefel pwnc, cofrestrwch nawr i ymuno â'n cyfres o weminarau am ddim:

- adroddiad ymgynghori – 29 Mehefin - 15:30-17:00 - Cofrestru
- penderfyniadau'r dyniaethau - 3 Gorffennaf - 16:00-17:00 - Cofrestru
- penderfyniadau mathemateg a rhifedd - 5 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru
- penderfyniadau gwyddoniaeth a thechnoleg - 10 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru
- penderfyniadau iechyd a lles - 11 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru
- penderfyniadau ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu - 12 Gorffennaf - 16:00-17:00 - Cofrestru
- penderfyniadau'r celfyddydau mynegiannol - 13 Gorffennaf - 15:30-16:30 - Cofrestru

Mae rhagor o fanylion a chyhoeddiadau hefyd ar gael ar **wefan Cymwysterau Cymru**.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth, eich adborth a'ch cyfraniad. Rydym nawr yn edrych ymlaen at gam cyffrous nesaf ein gwaith diwygio *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*, wrth i ni symud i bennod newydd ar gyfer addysg yng Nghymru.

Yn gywir



Philip Blaker, *Prif Weithredwr*

**CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 14**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

29 Mehefin 2023

**Dadl ar y cyd ar adroddiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal**

Annwyl Lywydd

Fel y gwyddoch efallai, yn ddiweddar mae'r Pwyllgor Deisebau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cyhoeddi adroddiadau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Cafodd adroddiad y Pwyllgor Deisebau 'Cefnogi rhieni sydd wedi bod mewn gofal', ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023. Cafodd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 'Os nad nawr, pryd?' ei gyhoeddi ym mis Mai 2023.

Mae gorgyffwrdd polisi sylweddol ar draws y ddau adroddiad. Mae adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn trafod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys gwasanaethau i rieni sydd wedi bod mewn gofal. Mae adroddiad y Pwyllgor Deisebau yn canolbwyntio'n benodol ar wasanaethau i rieni sydd wedi bod mewn gofal. Mae ein hadroddiadau yn dod o dan bortffolio'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf, maent wedi'u llywio gan farn rhai o'r un rhanddeiliaid (gan gynnwys rhai pobl ifanc penodol sydd wedi cyfrannu at y ddau ymchwiliad), ac maent yn gwneud argymhellion tebyg iawn mewn rhai meysydd.

Yn hytrach na threfnu dadl ar wahân yn y Cyfarfod Llawn ar bob adroddiad, rydym yn cynnig i'r Pwyllgor Busnes gynnal dadl ar y cyd ar y ddau adroddiad yn ystod slot y Cyfarfod Llawn sydd wedi'i neilltuo ar hyn o bryd i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (a drefnwyd ar hyn o bryd ar gyfer 4.55pm ar 12 Gorffennaf). Rydym yn cynnig rhai mân newidiadau i delerau dadl arferol ar adroddiad pwyllgor, sef y canlynol:

- Y cynnig ar gyfer y ddadl fyddai bod y Senedd yn nodi adroddiadau'r ddau bwyllgor.

- Byddai teitl y ddadl yn ymwneud â'r pwnc, yn hytrach na'r naill adroddiad neu'r llall yn benodol.
- Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Jayne Bryant AS, yn agor ac yn ymateb i'r ddadl.
- Byddai Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, Jack Sargeant AS, yn cael ei alw i siarad yn syth ar ôl i Jayne Bryant AS agor y ddadl.

O ystyried yr effeithlonrwydd cyffredinol o ran amser o ganlyniad i drefnu un ddadl adroddiad pwyllgor yn hytrach na dwy, gofynnwn i chi ystyried:

- rhoi amser ychwanegol i Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau siarad, gan gydnabod y bydd yn cyflwyno adroddiad y Pwyllgor Deisebau;
- rhoi amser ychwanegol i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol siarad, gan gydnabod y bydd yn ymateb i ddau adroddiad; ac, o fewn rheswm,
- rhoi cyfle i bob Aelod o'r Senedd sy'n dymuno siarad yn ystod y ddadl wneud hynny.

Nid ydym yn credu y byddai angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r weithdrefn arferol ar gyfer dadleuon y Senedd ar adroddiadau pwyllgorau.

Rydym yn gobeithio y gallwch ymateb yn ffafriol i'n cais. Credwn fod ein dull arfaethedig yn ddefnydd synhwyrol o amser y Cyfarfod Llawn, ac yn caniatáu trafodaeth fwy cyflawn a chyfannol i'r Aelodau a rhanddeiliaid fel ei gilydd ar y materion pwysig a rhyng-gysylltiedig a godir yn y ddau adroddiad.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

CYPE(6)-20-23 - Papur i'w nodi 15

ceca
Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

# CECA Wales Briefing, June 2023
# Education and Employment Links in Wales

Dear Chair,

I am writing on behalf of the Civil Engineering Contractors Association Wales to outline challenges the construction and infrastructure sector continues to face in recruiting skilled young people to pursue careers in this field.

We believe gaps in links between education and employment need to be addressed as a matter of urgency as recruitment issues are inhibiting business growth, opportunities for young people and those from disadvantaged communities at a time when they are desperately needed.

The new curriculum in Wales includes an emphasis on encouraging educational establishments to engage with businesses, however this remains a challenging area and we believe greater focus needs to be placed on this part of the curriculum moving forward.

Clear and consistent engagement routes between education and employers could lead to:

- Businesses providing supporting resources to deliver aspects of the curriculum;
- Better preparation for learners entering the workplace, particularly those wishing to pursue a more vocational approach;
- Greater encouragement for less academically focused learners and/or those from disadvantaged backgrounds to enter the workplace; and,
- Greater diversity across the construction sector.

We note and welcome the report by Hefin David MS published on this topic, which is very helpful and we would support the recommendations. We welcome this report as a key building block in this discussion and moving forward with the report's recommendations, would urge the Welsh Government to seek wider engagement with businesses to ensure an even deeper business perspective is included in the debate.

Our view is that current social value policies could be much better utilised to support business engagement with schools.  Construction companies working for the public sector are already familiar with the concept of social value and community benefits whereby added value is offered to a construction client (eg a local authority) over and above the delivery of a specific piece of work (eg a new road or railway station). This often entails the provision of jobs for local people, local purchasing, apprenticeships and training opportunities. This could quite easily be extended to providing support to schools in the form of work placements, site visits, careers support and, more specifically, direct delivery of parts of the new curriculum but from a workplace rather than schoolteacher perspective. For example,

delivering maths and physics experiences in the context of live civil engineering projects. There are examples of this being delivered but these tend to be in an ad hoc fashion and not consistently across the education system.

The current social value "benefits" delivery model has many inefficiencies which inevitably lead to a dilution of value and in many cases there is little or no oversight of the value that is actually delivered.

We propose that an alternative approach would be to identify willing school "partners" within a certain geographic area (eg local authority boundaries) to set out how they would like to be supported (eg X number of hours per week to help deliver aspects of the curriculum) and for successful contractors to be assigned a partner and to deliver those requirements over an agreed period of time. This gives the contractor certainty of what is required and the school continuity and consistency of delivery.

Ceca Wales sees the new curriculum as the perfect opportunity to develop these opportunities to develop and sustain the future workforce and would welcome the Committee's consideration of this issue and our suggestions.

If it would be helpful, we would be happy to provide further information and evidence to the Committee on this topic.

Kind regards,

Ed Evans, Director CECA Wales

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon